

I Ble'r Aeth Haul y Bore? Eirug Wyn



Roedd Chico'n teimlo'r bywyd yn araf ddiferu ohono. Gwyddai ei fod wedi colli llawer o waed a theimlai'n hollol wan. Ceisiodd gadw'n llonydd, ond roedd o eisoes wedi ffroeni'r bleiddiaid, ac wedi'u clywed yn nesáu ato. Doedd dim dwywaith nad arogl y gwaed oedd wedi'u denu. Roedd y gwaed yn diferu o'r clwyfau'n ei bennau gliniau, ac o'i geg.

Ceisiodd agor ei lygaid, ond roedd y rheiny'n llawn gwaed hefyd. Wedi agor a chau ei lygaid yn ffyrnig am eiliad neu ddwy gallai weld rhai o'r bleiddiaid yn dynesu. Yn araf bach, roedden nhw'n dod. Ffroeni, yna dod ato mewn cylch. Roedden nhw'n arogl ei waed. Yn synhwyro'i angau. Yn dod yn fwy powld. Unrhyw funud . . . unrhyw eiliad, roedd o'n disgwyl clywed brath y dannedd miniog yn rhwygo cnawd ei wddf. Roedden nhw'n nesáu. A'u cegau'n glaferio.

Yna'n sydyn, dyna sŵn fel chwip. Syrthiodd un o'r bleiddiaid ar lawr â saeth trwy'i wddf. Neidiodd dau neu dri o'r lleill arno'n syth a'i larpio. Sŵn fel chwip yr eildro, ac roedd ail flaidd yn gwingo'n belen ar lawr â saeth trwy'i wddf yntau. Mewn chwinciad roedd y lleill wedi'i heglu hi.

Welodd Chico mo'i achubwyr. Aeth popeth yn ddu. Ond fe glywodd eiriau tyner yn iaith yr Arapaho wrth iddo gael ei dorri'n rhydd o'r goeden.

Pa dechnegau mae Eirug Wyn yn eu defnyddio er mwyn disgrifio cyflwr Chico?

Pa effaith mae Eirug Wyn yn ei greu wrth bentyrru'r brawddegau byrion?

Beth yw pwrpas yr elipsiau yn yr ail baragraff?

Pa ferf a ddefnyddir yn y paragraff hwn er mwyn dangos bod y blaidd mewn poen?

Pa ansoddair a ddefnyddir yma er mwyn dangos bod Chico'n ddiogel gyda'r Arapaho?

DISGRIFIO

